sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

# CYNGOR SIR GAERFYRDDIN:

## Rhaglen Cyfalaf Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar 2025-2028

# CYNLLUN GRANTIAU CYFALAF BACH CANLLAWIAU AC AMODAU

# CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL

## Childcare and Early Years Capital Grant Programme 2025-2028

# SMALL CAPITAL GRANT SCHEME: GUIDANCE AND CONDITIONS

| | |
|---|---|
| Dylid cyfeirio bob ymholiad i: | All enquiries should be directed to: |
| **Ebost / E-mail:** smallgrantscheme@carmarthenshire.gov.uk | |

Mawrth / March 2026

## Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar 2025-2028 – Cynllun Grantiau Bach

Pwrpas yr arian yw cynnig cyllid grant bach i ddarparwyr gofal plant a gwarchodwyr plant i wella eu hadeiladau ar gyfer darparu gwasanaethau gofal plant

# NODIADAU CANLLAW AC AMODAU

Mae pob lleoliad gofal plant sydd wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn gymwys i wneud cais. Mae hyn yn cynnwys gwarchodwyr plant, darparwyr sector preifat a gwirfoddol, a lleoliadau a gynhelir sy'n cynnig gofal dydd llawn, gofal dydd sesiynol, chwarae mynediad agored, crèche a gofal plant y tu allan i'r ysgol. Gellir ystyried ceisiadau hefyd gan ddarparwyr gofal plant sydd yn y broses o wneud cais am gofrestru gydag AGC; bydd angen i'r Awdurdod Lleol fod yn fodlon fod y darparwr yn wirioneddol yn y broses o wneud y cais hwnnw i AGC.

**Rhaid i'r lleoliad gofal plant fod yn Sir Gaerfyrddin.**

Ni all darparwr wneud cais i fwy nag un Awdurdod Lleol er ei fod yn bosibl ei fod yn cymryd plant o fwy nag un ardal Awdurdod.

Os oes gan ddarparwr fwy nag un lleoliad cofrestredig, yna byddai angen iddyn nhw wneud ceisiadau unigol ar gyfer pob lleoliad ac ni fyddan nhw'n gallu trosglwyddo arian rhwng prosiectau.

**Wrth wneud cais mae’n rhaid bod darparwr:**

- Yn gallu mynegi sut y bydd y lleoliad a'r plant yn elwa ar y buddsoddiad.

- Wedi'i gofrestru gydag AGC neu yn achos darparwyr newydd, wedi rhoi ymrwymiad ysgrifenedig y bydd yn cofrestru gydag AGC cyn gynted â phosibl. Os nad yw lleoliad wedi'i gofrestru o fewn 6 mis ar ôl derbyn yr arian grant, gall y Cyngor gymryd camau i adennill yr arian. Os nad yw lleoliad wedi'i gofrestru o fewn 6 mis ar ôl derbyn yr arian grant, gall y Cyngor gymryd camau i adennill yr arian.

- Wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor i ddarparu a chynnig lleoedd ar gyfer naill ai:

  - Dechrau'n Deg
  - Cynnig Gofal Plant
  - Cyfnod Dysgu Sylfaen (cyllid addysg 3 blwydd oed)

- Yn gallu dangos diogelwch deiliadaeth am o leiaf 5 mlynedd. Pan fo nifer y blynyddoedd sy'n weddill o les yn llai na 5 mlynedd, gellir ystyried ceisiadau lle mae'r darparwr yn gallu dangos bod ymrwymiad neu fwriad clir gan y landlord i adnewyddu'r les.

- Yn gallu darparu tystiolaeth i brofi sefydlogrwydd ariannol a bod yr holl filiau hanfodol yn gyfredol heb unrhyw ôl-ddyledion, gan gynnwys y Dreth Gyngor.

- Yn barod i ymrwymo i gynnig lleoedd Gofal Plant am o leiaf 5 mlynedd o'r dyddiad y gwneir y taliad grant terfynol a chydnabod, os yw'n rhoi'r gorau i ddarparu lleoedd Gofal Plant neu'n derbyn plant sy'n talu ffioedd yn breifat yn rheolaidd dros y rhai sy'n derbyn gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yna bydd yn ofynnol iddo ad-dalu'r cyllid grant a dalwyd yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol. Bydd y swm ad-daladwy yn amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

- Yn cefnogi Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yr Awdurdod Lleol.

- Yn darparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu weithio ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

- Yn barod i weithio ochr yn ochr â'r Uned Gofal Plant a Swyddogion Datblygu Gofal Plant Sefydliadau Ymbarél i sicrhau hyfywedd a chynaliadwyedd hirdymor.

- Yn cydnabod y cyllid a dderbyniwyd mewn unrhyw ddeunydd hyrwyddo ar gyfer rhieni.

Byddem yn disgwyl i'r uchafswm sydd ar gael i unrhyw leoliad fod fel y manylir isod. Fodd bynnag, gall y Cyngor ddefnyddio ei grebwyll i gynnig mwy na'r uchafswm yn achos amgylchiadau eithriadol.

Mae swm y grant a ddyfernir yn dibynnu ar y gwasanaeth a ddarperir ac amgylchiadau unigol:

| | **Grant Cyfalaf Bach** |
|---|---|
| **Gwarchodwyr plant** | **£7,500** |
| **Darparwyr gofal plant sydd wedi cofrestru ar gyfer 15 neu lai o leoedd** | **£10,000** |

| | |
|---|---|
| **Darparwyr gofal plant sydd wedi cofrestru ar gyfer 16 i 29 o leoedd** | **£15,000** |
| **Darparwyr gofal plant sydd wedi cofrestru ar gyfer 30+ o leoedd** | **£20,000** |

Gwiriwch gyda Sabrina Morris os nad ydych yn siŵr:

smallgrantscheme@sirgar.gov.uk

Mae'r symiau a nodir uchod ar gyfer oes cynllun Grantiau Cyfalaf Bach Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar 2025-2028.

**Mae'r cyllid grant newydd hwn ar gael i leoliadau sydd hefyd wedi derbyn cyllid yn nyraniad grant 2022-2025.**

Rydyn ni'n rhagweld galw uchel am y grant felly rhaid i geisiadau fod yn realistig, felly darparwch gymaint o dystiolaeth â phosibl i gefnogi eich cais. Bydd pob cais yn cael ei asesu a'i sgorio ar sail unigol gan banel a bydd lleoliadau llwyddiannus yn cael eu hysbysu o'r dyfarniad sy'n cael ei gynnig iddynt.

**Gellir cynnig cyllid ar gyfer gwahanol weithiau cyfalaf y gallai fod eu hangen fel:**

- Adnewyddu cyffredinol, gan gynnwys paentio, ailosod carpedi, ac ati.
- Gwella cyfleusterau chwarae awyr agored lleoliad, megis ailosod yr wyneb chwarae awyr agored, llochesi neu ddarparu canopi i alluogi chwarae a dysgu ym mhob tywydd.
- Newid / atgyweirio gosodiadau a ffitiadau fel toiledau, cyfleusterau cegin, ffenestri, drysau, ac ati.
- Newid offer / dodrefn sydd wedi'u treulio a allai fod yn risg i iechyd a diogelwch. Er enghraifft, ffrâm ddringo awyr agored rhydlyd, dodrefn sydd wedi torri neu wedi treulio'n wael, a allai achosi sblintiau; neu fwrdd newid sydd wedi cael llawer iawn o ddefnydd, na ellir ei lanhau i safon hylendid mwyach.

- Darparu offer / dodrefn / offer ystafell synhwyraidd pwrpasol a fydd yn galluogi darparwr i ofalu am blentyn anabl neu blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Prynu dodrefn newydd ar gyfer lleoliadau gofal plant newydd.
- Gofyniad cynnal a chadw untro ar gyfer lleoliadau presennol.
- Cadeiriau gwthio a seddi car – i'w defnyddio gan warchodwyr plant a lleoliadau gofal plant yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Lleol.
- Gellir cael paneli solar o dan y cyllid grant bach lle gall lleoliad gofal plant / gwarchodwr plant ddangos yn glir gyfanswm manteision cost/elw ar fuddsoddiad (ROI). Gall yr Awdurdod Lleol ystyried cyfraniad pan fo gwarchodwr plant yn gofyn am baneli solar.

**Beth na ellir ei ariannu:**

Mae'r cyllid grant ar gyfer pryniannau cyfalaf yn unig, yn y bôn rhywbeth sydd â gwerth ailwerthu neu'n gwella gwerth yr eiddo.

**Ni ellir ei ddefnyddio i ariannu:**

- Prynu nwyddau traul, fel papur, deunyddiau glanhau, cewynnau ac ati
- Costau staff fel cyflogau, hyfforddiant, teithio a chynhaliaeth
- Prynu dillad, e.e. Siacedi, smociau, welingtons, ac ati
- Biliau cyfleustodau fel nwy, trydan, ardrethi
- Darparu costau cynnal cysylltiad Wifi
- Costau yswiriant e.e. yswiriant adeiladu, yswiriant atebolrwydd cyflogwr, ac ati

Nid yw’r rhestr hon yn hollgynhwysol; os nad ydych chi'n siŵr a yw eitem yn gymwys ai peidio, cysylltwch â smallgrantscheme@sirgar.gov.uk

## GWARCHODWYR PLANT YN UNIG

Gan fod gwarchodwyr plant yn gweithio mewn adeiladau domestig, dylent ddangos yn glir natur yr hyn sy'n cael ei ofyn a pham, a sut mae hyn o fantais i'r lleoliad gwarchod plant a phlant yn eu gofal. Dylid ystyried cais am gyfraniad ar gyfer gwaith o fewn ardaloedd cymunedol cartref y gwarchodwyr plant a bydd yn cael ei benderfynu gan yr Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, dylid asesu pob achos yn ôl yr angen, yr amgylchiadau a'r amgylchedd y mae'r gwasanaeth gwarchod plant yn cael ei ddarparu.

**Ni ellir defnyddio grantiau at unrhyw ddiben heblaw am yr hyn a nodir ar y ffurflen gais ac o fewn y Telerau ac Amodau.**

**Dylid gwario'r holl gyllid a ddyrannwyd o fewn blwyddyn ariannol cyn 31 Mawrth 2027**. Bydd gofyn i chi gwblhau adroddiad monitro ar sut y defnyddiwyd y cyllid.

**Os bydd derbynnydd grant yn methu â chydymffurfio ag amodau'r grant neu'n methu â dychwelyd yr adroddiad erbyn y dyddiad penodol, bydd gofyn i chi ad-dalu'r cyllid yn gyfan gwbl neu'n rhannol.** Bydd y swm hwnnw yn ad-daladwy i'r Cyngor ar unwaith.

**Bydd yn ofynnol i bob darparwr sy'n derbyn arian o'r Cynllun Grantiau Bach dderbyn y cynnig yn ffurfiol yn ysgrifenedig, drwy lofnodi'r Contract Derbyn yn ogystal â Thelerau ac Amodau'r grant.**

Mae'r cyllid yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ac mae'n rhaid cydnabod hyn mewn unrhyw lenyddiaeth a gohebiaeth cyfryngau cymdeithasol fel cylchlythyrau a dylid defnyddio brandio perthnasol Llywodraeth Cymru;

Wrth dderbyn y cynnig hwn, mae'r ymgeisydd yn cytuno i ddarparu lleoedd Gofal Plant am o leiaf 5 mlynedd o'r dyddiad y telir y cyllid grant.

Os ydych chi'n prynu nwyddau a / neu wasanaethau i gyflawni pwrpas y cais, bydd yn rhaid i chi eu prynu mewn ffordd gystadleuol a chynaliadwy i ddangos eich bod wedi cyflawni'r gwerth gorau wrth ddefnyddio arian cyhoeddus.

Bydd angen i chi gyflwyno 3 amcangyfrif ar gyfer eitemau/gwaith unigol gwerth dros £4,999.00, a rhesymeg glir dros ddewis eich opsiwn i gyd-fynd â'r cais. Rhaid i'r holl amcangyfrifon fod gan gwmnïau / contractwyr o Sir Gaerfyrddin. Os hoffech ddefnyddio cwmni / contractwr nad yw yn Sir Gaerfyrddin, rhaid i chi ddarparu esboniad clir am eich dewis.

Os yw'r ymgeisydd **<u>yn penderfynu peidio â derbyn</u>** plant sy’n cael eu hariannu drwy unrhyw raglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yna gallen nhw orfod ad-dalu'r cyllid a dalwyd yn ei gyfanrwydd neu’n rhannol. Ni fydd hyn yn berthnasol os gall yr ymgeisydd ddangos yn glir y byddai’n croesawu plant o dan y rhaglenni hyn ond **nid oes lle.**

Os yw'r lleoliad yn rhoi'r gorau i ddarparu lleoedd Gofal Plant neu'n derbyn plant sy'n talu ffioedd yn rheolaidd dros y rhai sy'n derbyn rhaglenni Llywodraeth Cymru, yna bydd yn ofynnol i'r lleoliad ad-dalu'r cyllid a dalwyd yn ei gyfanrwydd neu’n rhannol.

Rhaid gwario'r cyllid ar yr eitemau hynny sy'n cael eu hystyried yn gymwys ar gyfer cyllid yn unig, os oes tystiolaeth fod unrhyw ran o'r cyllid wedi'i defnyddio ar gyfer eitemau anghymwys, yna bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd ad-dalu'r swm hwnnw.

Gall darparwr wneud cais am gyllid ar gyfer yr un lleoliad fwy nag unwaith mewn unrhyw flwyddyn ariannol, ar yr amod nad yw cyfanswm y swm a ddyfarnwyd i leoliad unigol yn fwy na'r uchafswm a ganiateir oherwydd math a maint y lleoliad.

Wrth dderbyn y cyllid grant, mae'r ymgeisydd yn cytuno i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Bydd yn rhaid cadw derbynebau / anfonebau ar gyfer yr holl wariant a'u dychwelyd gyda ffurflen fonitro cyn diwedd y flwyddyn ariannol berthnasol.

Bydd angen ad-dalu unrhyw danwariant i'r Cyngor.

Mae gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, y Tîm Gofal Plant a Chwarae yr hawl i gynnal ymweliad monitro i sicrhau bod yr arian grant wedi'i wario'n union fel y nodwyd ar y ffurflen gais wreiddiol ac archwilio eich dogfennaeth, ac rydych yn cytuno i gydweithredu â'r Cyngor a Llywodraeth Cymru yn hynny o beth.

Mae disgwyl y byddwch yn cadw eitemau a brynwyd gan ddefnyddio’r cyllid grant am gyfnod penodol ar ôl cwblhau'r prosiect ac os byddwch yn gwerthu, trosglwyddo, prydlesu neu waredu fel arall yr asedau i gyd neu unrhyw ran sylweddol ohonynt o fewn 5 mlynedd i'r taliad terfynol, bydd gofyn i chi dalu rhywfaint o'r cyllid yn ôl yn gymesur i'r Cyngor.

Rydych yn cytuno i ad-dalu cyllid i'r Cyngor ar alw os digwydd i chi dorri'r telerau y dyfernir y grant oddi tanynt.

Bydd gennych yswiriant digonol ar waith.

Rydych yn cydnabod ein bod yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac efallai y bydd gofyn i chi ddatgelu gwybodaeth os oes angen.

Am 5 mlynedd ar ôl dyddiad y taliad terfynol ar gyfer y Cynllun Grantiau Bach rydych yn cytuno i gymryd rhan mewn unrhyw ddeunydd hyrwyddo y mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ei wneud.

Ym mhob cyhoeddusrwydd sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth Gofal Plant, dylid cyfeirio at y ffaith fod grant wedi'i ddyfarnu gan Gyngor Sir Caerfyrddin drwy Grant Cyfalaf Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru.

Mae angen i leoliadau gofal plant hyrwyddo eu gwasanaethau e.e. Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg (gan ddefnyddio'r brandio a'r geiriad priodol) trwy'r cyfryngau cymdeithasol, taflenni, a mathau eraill o hysbysebu.

**Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais:**

**Dydd Mawrth 1 Rhagfyr 2026**